Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Profiadau pobl hŷn o feddygfeydd yng Nghymru

**Mae mynediad pobl hŷn at wasanaethau meddygon teulu yn broblem ers tro byd. Yn 2018, lluniodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yr adroddiad, *Gwasanaethau Meddygon Teulu yng Nghymru*: *Safbwynt Pobl Hŷn*, gyda'r bwriad o wella'r mynediad hwn.**

I lawer o bobl hŷn, roedd pandemig Covid-19 yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu – yn enwedig y rhai sy'n byw gyda dementia a'r rhai a oedd wedi'u hynysu a heb neb wrth law i'w helpu. Cafodd y broses o newid i wasanaethau ar-lein a dros y ffôn ei chyflymu gan y pandemig. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol i rai pobl hŷn, ond mae wedi creu rhwystrau i eraill, yn enwedig i'r rhai nad ydynt ar-lein. Er enghraifft, mae nifer o bobl hŷn wedi dweud wrth y Comisiynydd nad ydynt wedi gallu cymryd rhan mewn apwyntiadau ar-lein / galwadau fideo gyda'u meddyg teulu ac nad ydynt wedi gallu trefnu apwyntiad wyneb yn wyneb.

Mae'r pwysau sydd ar y GIG hefyd yn effeithio ar fynediad pobl at wasanaethau iechyd. Mae hyn yn rhywbeth y mae llawer o'r bobl hŷn y mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi cwrdd â nhw ac wedi siarad â nhw ledled Cymru wedi'i brofi wrth geisio cael mynediad at y GIG.

**Mae'r Comisiynydd eisiau gwybod sut brofiad rydych chi wedi'i gael wrth gael mynediad at feddygfeydd yn ystod y misoedd diwethaf, ac os ydych chi wedi wynebu unrhyw broblemau. Os ydych chi'n 60 oed neu'n hŷn, mae'r arolwg hwn yn addas i chi. Os oes rhywun dan 60 oed yn llenwi'r arolwg ar eich rhan, bydd angen iddynt gynnwys eich gwybodaeth chi, nid eu gwybodaeth nhw.**

Os hoffech chi roi rhagor o fanylion i ni am unrhyw rai o'ch profiadau, defnyddiwch y blwch testun ar ddiwedd yr arolwg. Bydd yr holl atebion rydych chi'n eu rhoi yn ddienw, felly ni fydd posib eich adnabod chi'n bersonol oddi wrth yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi.

Gallwch chi rannu eich profiadau isod – dim ond ychydig funudau y bydd hyn yn ei gymryd – neu, os byddai'n well gennych chi, gallwch ein ffonio ni ar 03442 640 670, anfon e-bost i ask@olderpeople.wales, neu ysgrifennu atom ni:

FREEPOST RTHR-HYZC-RRAX //Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru // Adeiladau Cambrian // Sgwâr Mount Stuart // Caerdydd // CF10 5FL

Diolch yn fawr am eich help!

Os oes angen cymorth arnoch chi gydag unrhyw un o'r materion rydych chi wedi'u

profi, cofiwch y gallwch chi gysylltu â thîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd ar **03442 640 670** neu drwy e-bost yn ask@olderpeople.wales.

# Holiadur

Rhowch gylch o amgylch neu farciwch yr ateb mwyaf priodol, neu ysgrifennwch eich ateb yn y blwch lle bo'n briodol. Mae yna hefyd flwch ychwanegol ar y diwedd os hoffech chi ysgrifennu unrhyw wybodaeth bellach.

---

1. **Yn gyffredinol, pa mor hawdd yw cysylltu neu gael gwybodaeth gan eich meddygfa ar-lein, boed hynny dros y ffôn neu drwy ddulliau eraill?**

| | Anodd Iawn | | Eithaf Anodd | | Ddim yn Hawdd nac yn Anodd | | | Eithaf Hawdd | | Hawdd Iawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar-lein | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |
| Ffôn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |
| Arall (rhowch fanylion) | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |

2. **Yn gyffredinol, pa mor hawdd yw cael y math o apwyntiad yr hoffech ei gael yn eich meddygfa?**

| Anodd iawn | | Anodd | Ddim yn Hawdd nac yn Anodd | | | | Hawdd | | Hawdd Iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

3. **Ydych chi'n cael y cymorth sydd ei angen arnoch gan y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn i chi allu mynd i'ch apwyntiadau yn eich meddygfa? (ee, Galwadau ffôn neu negeseuon testun i'ch atgoffa; print bras / gwybodaeth mewn fformat hygyrch)**

| Dim cefnogaeth | Rhywfaint o gefnogaeth | Yr holl gefnogaeth sydd ei hangen arnaf |
|---|---|---|

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

### 4. A yw eich meddygon a'ch nyrsys yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd, ac yn gwybod popeth y mae angen iddynt ei wybod amdanoch?

| Na, mae'n rhaid i mi ailadrodd popeth | Mae rhai meddygon/nyrsys yn gwybod rhywfaint o bethau amdanaf | Mae'r meddygon a'r nyrsys yn gwybod yr holl bethau pwysig amdanaf |
|---|---|---|

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

### 5. Pa mor hawdd yw mynd i'ch meddygfa leol gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?

| Anodd Iawn | Eithaf Anodd | Ddim yn Hawdd nac yn Anodd | Eithaf Hawdd | Hawdd Iawn |
|---|---|---|---|---|

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

### 6. Ydych chi'n teimlo eich bod yn gallu gofyn am ymweliad cartref os oes angen un arnoch chi?

(Gallwch ddweud mwy wrthym am hyn yn y blwch ar ddiwedd yr arolwg)

| Nac ydw, dim o gwbl | Ydw, unrhyw bryd |
|---|---|

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

### 7. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich croesawu, eich parchu, ac yn gallu dweud eich dweud yn eich meddygfa?

(Gallwch ddweud mwy wrthym am hyn yn y blwch ar ddiwedd yr arolwg)

| Dim o gwbl | Anaml | Weithiau | Fel arfer | Bob amser |
|---|---|---|---|---|

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## 8. Os na allwch chi gael apwyntiad addas yn gyflym yn eich meddygfa, beth ydych chi'n ei wneud?

| |
|---|
| |

## 9. Allwch chi gael gafael ar wasanaethau meddygon teulu yn Gymraeg neu mewn Ieithoedd Cymunedol eraill pryd bynnag y mynnoch?

| | Anodd Iawn | | Eithaf Anodd | | Ddim yn Hawdd nac yn Anodd | | | Eithaf Hawdd | | Hawdd Iawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |
| Iaith Gymunedol Arall (rhowch fanylion) | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Amh. |

## 10. a) Ydych chi wedi rhoi canmoliaeth, mynegi pryder, neu wedi gwneud cwyn am wasanaethau meddygon teulu gyda'ch practis neu'ch bwrdd iechyd?

(Gallwch ddweud mwy wrthym am hyn yn y blwch ar ddiwedd yr arolwg)

Ydw Nac ydw

### b) Os felly, oeddech chi'n fodlon â'r canlyniad?

Oeddwn Nac oeddwn

**11. Pa ffynonellau gofal iechyd eraill sydd ar gael yn lleol?**

**12. Sut gellid gwella eich profiad o wasanaethau meddygon teulu?**

**A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu â ni am eich profiadau gyda'ch meddygfa?**

## Manylion cyswllt (os oes angen)

Nid oes rhaid i chi roi eich manylion cyswllt, oni bai:

- ☐ bod gennych chi fater penodol yr hoffech gael cymorth neu gyngor arno gan swyddfa'r Comisiynydd. Os felly, ticiwch y blwch hwn a rhowch eich manylion cyswllt isod. Bydd y tîm yn ceisio cysylltu â chi o fewn 10 diwrnod gwaith.
- ☐ eich bod chi'n fodlon i ni gysylltu â chi os byddwn yn gweld rhywbeth yn eich ateb a allai fod yn destun pryder. Os felly, ticiwch y blwch hwn a rhowch eich manylion cyswllt isod.

**Enw:**

**Rhif Ffôn**

**E-bost**

## Rhagor o wybodaeth (dewisol)

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cynrychioli pobl o bob cefndir ac sydd â gwahanol brofiadau bywyd, ac yn cyrraedd cynifer o bobl hŷn â phosibl.

Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon ar ran ffrind neu berthynas, rhowch eu gwybodaeth nhw.

## Gwledig/trefol

Sut byddech chi'n disgrifio'r ardal rydych chi'n byw ynddi – gwledig neu drefol?

☐ Gwledig

☐ Trefol

## Oedran

☐ 60-69
☐ 70-79
☐ 80+
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## Rhyw

☐ Dyn
☐ Menyw
☐ Arall
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## A yw'ch hunaniaeth rhyw yr un fath â'r rhyw a bennwyd ichi ar adeg eich geni?

☐ Ydy
☐ Nac ydy
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## Cyfeiriadedd rhywiol

☐ Deurywiol
☐ Hoyw / Lesbiaidd
☐ Heterorywiol
☐ Arywiol
☐ Arall
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

## Statws Perthynas

☐ Priod
☐ Wedi ysgaru
☐ Partneriaeth Sifil
☐ Sengl
☐ Cyd-fyw
☐ Wedi gwahanu
☐ Gweddw
☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

## Crefydd neu gred

☐ Dim crefydd neu gred
☐ Cristion (pob enwad)
☐ Bwdhydd
☐ Hindŵ
☐ Iddew
☐ Mwslim
☐ Sikh
☐ Unrhyw grefydd neu gred arall

## Hunaniaeth Genedlaethol

☐ Cymreig
☐ Albanaidd
☐ Seisnig
☐ Gogledd Iwerddon
☐ Gwyddelig
☐ Prydeinig
☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
☐ Arall
☐ Mae’n well gen i beidio â dweud

## Tarddiad Ethnig

☐ Gwyn
☐ Grwpiau ethnig cymysg/lluosog
☐ Asiaidd
☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd
☐ Arall

## Ydych chi’n ystyried eich hun fel unigolyn ag anabledd?

☐ Ydw

- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae’n well gen i beidio â dweud